Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod Hybrid 25 Mehefin 2024 am 7:00 yr hwyr.

| ENW | PRESENNOL | YMDDIHEURO |
|---|---|---|
| John Brinley Jones (Cadeirydd) | ✓ | |
| Alan Harper-Smith | ✓ | |
| Andrew Parry | | ✓ |
| Greta Hughes | ✓ | |
| Gwenllian Davenport Hughes | ✓ | |
| Hywel James Sinclair Evans | ✓ | |
| Ian Goronwy Williams | ✓ | |
| Keith Williams | ✓ | |
| Kevin Wheatley | | ✓ |
| Thomas Victor Jones | | ✓ |
| William Roger Jones | ✓ | |
| **HEFYD** | | |
| Caroline Jones (Clerc) | ✓ | |
| Ann Llwyd (Cyfieithydd) (Yn rhithiol) | ✓ | |

1. **Croeso i'r Clerc Newydd – Caroline Jones**
   - **1.1.** Croesawyd Caroline Jones i'w chyfarfod cyntaf.
   - **1.2.** Ymddiheuriadau: Derbyniwyd ymddiheuriadau fel y nodwyd uchod.

2. **Datgan Buddiant Ariannol neu Bersonol**
   Datgan unrhyw fuddiant ariannol neu bersonol i unrhyw eitem ar yr agenda. Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant ariannol na phersonol.

3. **Cofnodion - er mwyn cywirdeb yn unig. Pwyllgor 28 Mai 2024**
   Diolchwyd i Andrew Parry am wneud cofnodion y cyfarfod diwethaf.
   Derbyniwyd y cofnodion yn unfrydol fel rhai cywir.
   Cynigiwyd gan Ian Goronwy Williams.
   Eiliwyd gan Gwenllian Davenport Hughes.

4. **Unrhyw Fater Brys**
   - **4.1.** **Archwiliad 2023-24 a gofynion pwyllgorau yn y dyfodol:** Adroddodd y Cadeirydd bod canlyniadau'r archwiliad yn dda, gyda dim ond dau fater wedi codi, sef mater yswiriant, a methiant rhoi swm grant yn erbyn cyllideb. Roedd y mater yswiriant wedi cael ei drafod a chytuno gyda'r archwilwyr erbyn hyn ac mi fyddai'r mater cyllid yn derbyn sylw mwy trwyadl yn y dyfodol. Byddai'r holl wybodaeth a'i casglwyd yn cael ei gyflwyno i'r archwilwyr allannol.
     Derbyniwyd yr adroddiad yn unfrydol.
     Cynigwyd gan Greta Hughes.
     Eiliwyd gan Ian Goronwy Williams.

   - **4.2.** **Cyfrif Liquidity Manager NatWest**: Adroddodd y Cadeirydd bod y cyfrif wedi ei hagor ac nid oedd arian o'r cyfrif *Reserve* wedi ei drosglwyddo iddo. Derbyniwyd £87 o log yn ym mis Mai ar y cyfrif *Reserve*. Cynigwyd i

drosglwyddo £70,000 o'r cyfrif *Reserve* i gyfrif *Liquidity Manager* gan Keith Williams.
Eiliwyd trosglwyddo £70,000 o'r cyfrif *Reserve* i gyfrif *Liquidity Manager* gan Alan Harper-Smith.
Cytunwyd yn ddelfrydol i drosglwyddo £70,000 o gyfrif Reserve Natwest i'r cyfrif *Liquidity Manager*.

4.3. **20 / 30 milltir yr awr**: Eglurwyd y byddai rhaid i gynghorau tref a phentrefi roi barn i Lywodraeth Cymru ar y sefyllfa i newid y cyflymdra yn y pentref yn ôl i 30mya , neu cadw 20mya yn gyfan gwbl neu'n rhannol.
**Gweithredu**: **Y Clerc a'r Cadeirydd i ymchwilio'r mater cyflymdra pentref a chynnwys ar agenda'r cyfarfod nesaf.**

4.4. **Y Llong / Ship, y Garafán wedi ei lleoli yn y maes parcio ac unrhyw garafán arall sydd wedi ei gosod yn anghyfreithlon**: Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw beth wedi ei wneud am y sefyllfa carafán yn y Ship nac yng Nghraig y Glyn. Nid oedd ymateb wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd i'r ymholiad gwnaethpwyd iddynt i ofyn a oedd caniatâd cynllunio wedi ei gytuno.
**Gweithredu: Y Clerc a'r Cadeirydd i ymchwilio'r mater carafannau a chynnwys ar agenda'r cyfarfod nesaf.**

4.5. **Toiledau Cyhoeddus**: Adroddodd Alan Harper-Smith nad oedd wedi derbyn adborth yn dilyn ei ymholiad i Gyngor Gwynedd am y toiledau cyhoeddus, ynglŷn â chytundeb am eu hagor am y flwyddyn am gost £2,000. Nid oedd y chwaith wedi derbyn ymateb gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol am ei ymholiad am gyllid ar gyfer y costau.
**Gweithredu: Y Clerc i gydweithio gydag Alan Harper-Smith i symud y mater agor y toiledau yn ei flaen.**

5. **Llwybrau, diweddariad ar gŵyn am gordyfiant y llwybrau:** Derbyniwyd cwyn gan drigolyn y pentref am ordyfiant yn llwybrau'r pentref. Derbyniwyd gan y Cyngor bod tyfiant diweddar wedi bod yn eithriadol ac adroddwyd bod y Cadeirydd wedi gofyn i'r contractwyr fynd ati i'w torri. Ar fater llwybrau, ychwanegwyd pwynt am y cerrig ar waelod llwybr Trwy'r Nant a bod angen cysylltu efo Gyngor Gwynedd am gyflwr cerrig yn y gwaelod.
**Gweithredu: Clerc i gysylltu gyda swyddog llwybrau Cyngor Gwynedd i gael golwg ar y cerrig yn llwybr Trwy'r Nant.**

6. **Mainc:** Adroddwyd bod y fainc dros ffordd i siop Spar wedi pydru ac fe'i hawgrymwyd i'w dynnu i lawr dros dro.
**Gweithredu: Y Clerc i drefnu i'r contractwr Roger Fisher i dynnu'r fainc dros dro ac i'w drwsio neu ei ail-wneud.**

7. **Llwybr ger yr ysgol**: Adroddwyd bod y llwybr yma yn rhy gul ac wedi gordyfu. **Gweithredu: Y Clerc i gysylltu efo Swyddog Llwybrau Cyngor Gwynedd am y mater a gofyn a fyddai modd i'w ledaenu.**

8. **Y Fynwent, y Fynwent Newydd:** Adroddodd William Roger Jones ei fod wedi gwirfoddoli i wagio biniau'r fynwent, a dywedodd bod rhaid talu am wasanaeth casglu gwastraff masnachol. Dywedodd Greta Hughes bod y clefyd mycsomatosis wedi cyrraedd yr ardal ond nid oedd yn sicr a oedd wedi cyrraedd cwningod y fynwent eto.
**Gweithredu: Y Clerc i gysylltu gydag adran gwastraff masnachol Cyngor Gwynedd i wirio a oedd gwasanaeth wedi ei archebu eisoes, a sicrhau bod gwasanaeth yn ei le cyn gynted â phosib**.

9. **Cae Chwarae**: Derbyniwyd diweddariad llafar yr Is-bwyllgor, gan James Sinclair Evans. Dywedodd bod grant £30mil wedi ei dderbyn drwy grant AHNE Cyngor Gwynedd a bod cais ar wahân wedi ei wneud am grant Ymddiriedolaeth John Andrews am £300mil i gychwyn datblygu'r cae chwarae ym mis Medi 2024. Pe byddai'r cais yma yn llwyddiannus, byddai offer newydd yn cael ei brynu. Roedd gwellt y cae chwarae a'r ffordd tu allan wedi cael ei dorri. Bwriedir cyflwyno cynllun ar y datblygiadau yn y cyfarfod nesaf. Roedd bwrdd picnic wedi cael eu dynnu allan o'r cae chwarae gan ei fod wedi pydru a rhai eraill yn cael eu trwsio.

10. **Neuadd y Pentref**: Adroddodd Ian Goronwy Williams nad oedd is-bwyllgor wedi ei gynnal ers cyfarfod diwethaf o'r cyngor. Roedd anfoneb am waith trwsio draeniau neuadd y pentref wedi ei dderbyn gan Steven John. Byddai hysbyseb yn y Llanw Llŷn yn fuan, i geisio trefnu grŵp o wirfoddolwyr i glirio'r neuadd o hen bethau.

11. **E-bost Iwan Hughes yn cwyno am ddiffyg cynnal a chadw o gwmpas y pentref**: Mewn ymateb i'r materion o fewn y cwyn, nodwyd bod offer hel ysbwriel ar gael i'r Cyngor Cymuned pe byddai ymdrech i hel ysbwriel yn cael ei wneud. Roedd rhywfaint o chwynnu eisoes wedi ei wneud. Cynigwyd i gysylltu gyda thîm tacluso cymunedau Cyngor Gwynedd. Roedd arwyddion y pentref hefyd wedi troi yn wyrdd gyda thyfiant algâu; roedd cynnal arwyddion o dan ofal Gyngor Gwynedd. Cynigwyd i wneud ymdrech lleol i'w glanhau.
Mater arall o fewn y cwyn oedd cyflwr gwael sylfaen y ddelw ar Fynydd Tir y Cwmwd. Peth amser yn ôl, cafwyd pris gan adeiladwr ond ni aethpwyd ymlaen i'w drefnu. Cafwyd gwybod hefyd o fewn y gwyn bod pont llwybr Castell Grug wedi disgyn, a'r dŵr yn llifo drosto.

**Cytunwyd**: **i'r Clerc:**

**11.1. Cysylltu gyda thîm tacluso cymunedol Cyngor Gwynedd i ofyn am gymorth hel ysbwriel.**

**11.2. Roi hysbyseb ar dudalen Facebook y Cyngor Cymuned i geisio cael gwirfoddolwyr i drwsio sylfaen y ddelw, hefyd i geisio cymorth gan Roger Fisher gyda'r gwaith trwsio.**
**11.3. Rhoi hysbyseb ar Facebook i gychwyn ymdrech lleol i lanhau arwyddion y pentref.**
**11.4. Cysylltu gydag adran llwybrau Cyngor Sir i ofyn iddynt roi sylw i'r bont dros lwybr Castell Grug.**

12. **E-bost Cyngor Gwynedd – Lawnsio cychod:** Cyflwynodd Alan Harper-Smith wybodaeth am y mater, hynny yw, bod pyst wrth fynedfa'r traeth wedi cael eu newid i atalfa a bod hyn wedi rhwystro trigolion lleol gyda lawnsio eu cychod gan nad oedd goriadau i'r atalfa wedi cael eu dosbarthu. Roedd trigolion y pentref yn hanesyddol wedi cael mynediad i'r traeth gyda'u cychod. Bu Alan Harper-Smith mewn cysylltiad gyda swyddog o Gyngor Gwynedd i geisio trafod y mater ac fe oedd angen gwirio beth oedd y drefn a rheolau ar gyfer lawnsio ar y traeth. Ar hyn o bryd dim ond tri goriad oedd wedi eu rhannu, a rheiny i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, y bwyty Aqua ac i berchennog y traeth i'r dde o'r nant. Derbyniwyd sylw y byddai'n biti pe byddai trigolion Llanbedrog yn colli hawliau mynediad i'r traeth gyda chwch. Gofynnodd Alan Harper-Smith a oedd unrhyw ddiweddariad efo cau Lôn Nant Iago – nid oedd hyd yma.
**Gweithredu: Y Clerc i ddrafftio llythyr i Bryn Pritchard Jones yng Nghyngor Gwynedd i geisio datrys unrhyw gamddealltwriaeth ac i gynnwys copïau o unrhyw dystiolaeth o gyn gytundebau mynediad i'r traeth gan drigolion y pentref.**

13. **Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Gwahardd a Chyfyngu Aros a Mannau Parcio ar y Stryd a Diddymu) (Ardal Dwyfor Rhif 8( er gwybodaeth:** rhannwyd copïau o'r gorchymyn gyda'r cynghorwyr yn bresennol. Roedd y gorchymyn yn berthnasol i'r ffordd di-ddosbarth Lôn Nant Iago ar ddwy ochr y ffordd o'i fynedfa i Blas Glyn y Weddw mewn cyfeiriad de-ddwyreiniol i lawr i'r traeth.

14. **Taliadau**
Cytunwyd y taliadau isod:

Ann Llwyd, Cyfieithydd £70
Cyflog y Clerc - £128
PAYE ac NI – swm i'w gadarnhau.
Steven John, gwaith toiledau, anfoneb wedi cyrraedd yn unol â'r dyfynbris, £7,500 (yn cynnwys TAW)
Roger Fisher – £225

Derbyniadau:
£570 gan Gyngor Gwynedd – ad-daliad torri llwybrau.
£200 gan NatWest am gamgymeriad gwaeth y banc.

Nodwyd bod un siec ar goll, sef heb ei fancio, i Lais Cymru.
**Gweithredu: Y Clerc i gysylltu gyda Llais Cymru i ganfod pam nad oedd y siec wedi ei fancio ganddynt.**

**15. Ceisiadau Cynllunio:**
Cais C24/0171/38/DT: Glanrafon: Sylwyd bod datganiad effaith amgylcheddol wedi ei wneud gyda'r cais, a bod y datblygiad yn cynnwys blwch nythu gwennol ddu a goleuadau yn wynebu i lawr er mwyn atal llygredd golau. Dim gwrthwynebiad i'r cais.
Cais C24/0482/38/DT, Coedwig, Lôn Bribwll. Gwrthodwyd y cais ar sail nad oedd gwybodaeth ddigonol a phryder am or-ddatblygiad y modurdy. Gofynnwyd hefyd am eglurhad o ddefnydd y modurdy.

Daeth y cyfarfod i ben am 20.27.

| **COFNODION DRAFFT WEDI EU CADARNHAU GAN Y CADEIRYDD** | | |
|---|---|---|
| ARWYDDWYD: | *J B Jones* | DYDDIAD: 01/07/2024 |